RHAGFYR 2025

# MIN Y TRAETH

BWLETIN YSGOL EIFIONYDD




## GAIR GAN Y PENNAETH

**Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,**

Wrth i ni ddod at ddiwedd tymor prysur a llwyddiannus, hoffwn estyn dymuniadau cynnes i'n holl deuluoedd am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda. Mae'r tymor hwn wedi bod yn llawn gweithgareddau cyfoethog sy'n adlewyrchu ymroddiad, creadigrwydd a gofal ein cymuned ysgol gyfan. Uchafbwynt y tymor oedd Gwasanaeth yr Ysgol yng Nghapel y Porth, lle cafwyd perfformiadau rhagorol gan ein disgyblion. Rydym hefyd yn falch o'r gwaith caredig a wnaed yn y gymuned, gan gynnwys ymweliadau â chartrefi henoed a chroesawu'r gymuned i'r ysgol. Bu'r tymor yn un bywiog gyda llu o brofiadau gwerthfawr i'r disgyblion ar draws pob blwyddyn, a pharhaodd llais y disgyblion i chwarae rhan ganolog ym mywyd yr ysgol drwy'r cynghorau amrywiol. Diolch o galon i'r disgyblion, staff a theuluoedd am eich cefnogaeth barhaus. Dymunwn wyliau'r Nadolig hapus a diogel i chi oll, ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl yn y flwyddyn newydd.

Mr Dewi Rhys Bowen

---

**Noson Agored a Sesiynau Pontio**

Cynhaliwyd ein Noson Agored ym mis Hydref, ac roedd yn noson arbennig iawn i gymuned Eifionydd. Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 o'r dalgylch a'u teuluoedd gyfle gwerthfawr i gael blas o'r arlwy unigryw sydd ar gael yma yn Eifionydd. Roedd y noson yn cynnwys: cerddoriaeth fyw gan ddau ddisgybl o flwyddyn 7, **Joel Campbell** a **Gwern Pugh**, Taith o'r *i*-gyfadrannau, cyflwyniad gan y Pennaeth ac aelodau o'r Cyngor Ysgol, Cyfle i gwrdd â staff a disgyblion, cyfle i flasu danteithion sawrus a melys gan yr adran **Ddylunio a Thechnoleg** a'r **Cantîn**, a chafwyd ambell i syrpreis! Fel rhan o'n trefniadau pontio, croesawyd disgyblion Blwyddyn 6 o'r dalgylch yn ôl i Eifionydd yn ystod yr wythnos i fynychu bore blasu ***i*-Ddatblygu**, Iechyd a Lles. Yn ystod y sesiynau hyn, cafwyd cyfle i goginio cacennau bach a chymryd rhan mewn sesiwn *Martial Arts*, gan roi profiad ymarferol a hwyliog o fywyd ysgol. Hoffem ddiolch yn fawr i'n hathrawon a'n disgyblion hynod dalentog am eu parodrwydd i helpu ac am wneud y digwyddiadau hyn yn rhai hwyliog, personol ac yn wirioneddol unigryw i ni yma yn Eifionydd.









**Diogelwch Digidol a Dysgu yn yr Adran Saesneg**

Fel y nodwyd yn y llythyr a anfonwyd at rieni a gwarcheidwaid yr wythnos diwethaf, mae'r ysgol yn parhau i fod yn bryderus ynghylch camddefnydd o ffonau symudol a chyfryngau cymdeithasol, a'r risgiau difrifol y gall hyn eu peri i ddiogelwch a lles disgyblion. Diolchwn i rieni am eu cefnogaeth barhaus wrth fonitro defnydd digidol eu plant ac atgyfnerthu disgwyliadau'r ysgol.

Yn ystod y tymor hwn, mae'r **Adran Saesneg** wedi bod yn archwilio dylanwad cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r cwricwlwm. Mae disgyblion Blwyddyn 9 wedi ysgrifennu Traethawd Dadansoddol ar bwnc y cyfryngau, gan ddangos dealltwriaeth gynyddol o effaith, cyfrifoldeb a goblygiadau moesegol y byd digidol. Rydym yn falch o rannu un enghraifft arbennig o ysgrifennu aeddfed gan **Grace Hughes**, o flwyddyn 9, sy'n amlygu meddwl beirniadol a safon uchel o fynegiant ysgrifenedig. Dilynwch y Cod QR i ddarllen y traethawd.

# ADFENT EIFIONYDD




**Cinio Nadolig**
Cafwyd cinio Nadolig bendigedig unwaith eto eleni, diolch i waith caled ac ymroddiad staff y cantîn. Hoffem estyn ein diolch yn fawr iawn iddynt am eu gwaith diflino wrth baratoi gwledd arbennig i bawb ei mwynhau.




**Diwrnod Siwmper Nadolig – Save the Children**
Dyma gipolwg ar ymdrechion yr ysgol eleni i ddangos ein cefnogaeth tuag at elusen *Save the Children*. Cynhaliwyd Diwrnod Siwmper Nadolig ar y 12fed o Ragfyr, gyda disgyblion a staff yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn cyfrannu at achos gwerthfawr iawn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.

**Ymweliad Nadoligaidd Blwyddyn 8 i Gastell Penrhyn**
Ar Ddydd Gwener 12 Rhagfyr 2025, bu disgyblion Blwyddyn 8 ar ymweliad addysgol hyfryd â Chastell Penrhyn. Cafodd y disgyblion gyfle i archwilio'r castell a dysgu am ei hanes, gan ddyfnhau eu dealltwriaeth o fywyd yn y gorffennol a'r cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r safle.
Roedd yr ymweliad yn brofiad gwerthfawr ac ysbrydoledig, gan gefnogi dysgu yn y dosbarth ac annog chwilfrydedd a diddordeb mewn hanes lleol a chenedlaethol.

**Cyfleoedd STEM: Her Adwaith Cadwynol**
Wrth gydweithio â Phrifysgol Bangor, cynhaliwyd gweithdy STEM LEGO Spike Prime cyffrous i ddisgyblion Blwyddyn 9 yn Ysgol Eifionydd. Cafodd y disgyblion gyfle gwerthfawr i ddylunio, adeiladu a chodio modelau gan ddefnyddio'r cit LEGO Spike Prime, gan ddatblygu sgiliau creadigol, datrys problemau a meddwl cyfrifiadurol. Roedd y gweithdy'n rhoi profiad ymarferol a pherthnasol o dechnoleg fodern, gan ysbrydoli'r disgyblion i weld sut mae STEM yn cael ei ddefnyddio yn y byd go iawn ac i godi ymwybyddiaeth tuag at addysg uwch a gyrfaoedd yn y maes.






**Taith Addysgol Blwyddyn 8 – Rheilffordd 200, Llandudno**
Yn ddiweddar, cafodd disgyblion Blwyddyn 8 gyfle gwerthfawr i ymweld â Thren Arddangos Rheilffordd 200, yng Ngorsaf Llandudno, fel rhan o waith trawsgwricwlaidd rhwng yr adrannau Hanes a Gwyddoniaeth. Yn ystod y profiad rhyngweithiol, archwiliodd y disgyblion ddatblygiad y rheilffyrdd dros y 200 mlynedd diwethaf, gan gysylltu'r hyn a ddysgwyd am y Chwyldro Diwydiannol â chysyniadau gwyddonol megis peirianneg, dylunio, ynni a datblygiad technolegol. Cafwyd cyfle hefyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau STEM ymarferol a thrafod sut mae arloesedd gwyddonol wedi dylanwadu ar gymdeithas a thrafnidiaeth fodern. Roedd y daith yn gyfle gwych i weld cysylltiadau clir rhwng pynciau'r cwricwlwm a gyrfaoedd STEM yn y byd go iawn, gan gryfhau eu dealltwriaeth a'u brwdfrydedd dros ddysgu.








**Ymweliad Hafod y Gest a Chartref Bodawen**
Fel rhan o ddathliadau Adfent yr ysgol yn y gymuned, ymwelodd criw o ddisgyblion â Hafod y Gest a Bodawen i gyflwyno perfformiad Nadoligaidd arbennig i'r trigolion. Cafwyd perfformiad hyfryd gan **Joel** a **Gwern** o **flwyddyn 7** ar y piano, **Gwawr** o flwyddyn 8 a **Gwen** o flwyddyn 9 ar y corn. Cafwyd croeso cynnes gan bawb a fu'n bresennol. Yn ogystal, croesawyd trigolion Hafod y Gest i Ysgol Eifionydd am de pnawn, a baratowyd ac a weinwyd gan ddisgyblion yr ysgol. Diolch yn fawr i bawb a fu'n rhan o'r ymweliadau cymunedol llwyddiannus a gwerth chweil hyn.











**i-GREU** Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

**Disgo Tawel Nadoligaidd – Blwyddyn 7**
Diolch o galon i'r Urdd am gynnal disgo tawel Nadoligaidd i ddisgyblion Blwyddyn 7 wythnos diwethaf. Roedd yn brofiad llawn hwyl ac yn sbort go iawn i bawb a fu'n cymryd rhan.

**Yr Adran *i-Greu* – Uchafbwyntiau'r Tymor**
Bu'r tymor hwn yn un prysur a llawn cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion yr Adran ***i*-Greu**. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd:

- Taith i **Stiwdio Aria** i ddisgyblion Blwyddyn 7 i weld set **Rownd a Rownd**
- Gweithdai cerddorol gan **DJ Endaf** i rai o ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9, fel rhan o brosiect y **Gwasanaeth Cerdd**
- Cydweithio gyda'r Adran ***i*-Gyfathrebu** i greu delweddau a phortreadau cartŵn yn nosbarthiadau Celf Blwyddyn 7
- Cyngerdd Nadolig yng **Nghapel y Porth**
- **Erain Jên** ac **Elain Perry** i'w gweld ar ail gyfres Stad
- Gweithdy canu gospel a gynhaliwyd gan y **Gwasanaeth Cerdd**

Diolch i bawb a fu'n rhan o drefnu a chefnogi'r gweithgareddau cyfoethog hyn.





**Cyngor Creadigol a Chlwb Crefft er Lles**
Bu'r **Cyngor Creadigol, yr Adran Ddylunio a Thechnoleg a Clwb Crefft er Lles** yn brysur y tymor hwn yn cyfrannu at fywyd creadigol yr ysgol. Ymhlith y gweithgareddau roedd: Creu addurniadau Nadoligaidd, Dylunio a chreu poster a rhaglen ar gyfer y Cyngerdd Nadolig. Diolch i'r disgyblion am eu creadigrwydd, eu hymroddiad a'u cyfraniad gwerthfawr.

**Gwasanaeth Nadolig**
Diolch o waelod calon i **BOB** disgybl a gymerodd ran yn ein Gwasanaeth Nadolig a gynhaliwyd yng Nghapel y Porth eleni. Roedd y dalent a'r ymroddiad yn wirioneddol ysbrydoledig. Dyma luniau o rai o'r disgyblion talentog sydd gennym yma yn Eifionydd.

























**Clwb Hanes ac Archaeoleg**
Un o'r clybiau newydd sydd wedi'u sefydlu eleni yw **Clwb Hanes ac Archaeoleg**. Yn ystod y sesiynau, mae'r disgyblion yn datrys posau a heriau er mwyn darganfod safleoedd a ffigurau archaeolegol o Gymru a thu hwnt. Mae'r clwb yn cynnig cyfle i ddatblygu sgiliau ymchwilio, meddwl yn feirniadol a gweithio'n annibynnol, tra'n meithrin diddordeb mewn hanes ac archaeoleg.

**Dylunio a Thecholeg**
Bu'r tymor yn un prysur a llawn cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion yr adran **Ddylunio a Thechnoleg**, ***i*-Ddarganfod**. Cymerodd disgyblion ran mewn cystadlaethau **PobUrdd** a **CogUrdd** ar lefel ysgol a rhanbarthol, gan ddatblygu sgiliau ymarferol coginio annibynnol. Cafwyd ymweliad llwyddiannus â'r **Ffair Aeaf**, lle bu disgyblion yn cystadlu mewn gweithgareddau megis ffeltio a chreu coed Nadolig. Yn ogystal, bu'r disgyblion yn gweithio'n galed yn yr ardd fechan, gan gyfrannu at gadw amgylchedd yr ysgol yn daclus ac yn ddeniadol. Fel rhan o weithgareddau Adfent yr adran, paratowyd mins peis ar gyfer **Hafod y Gest.** Cynhaliwyd hefyd **Cwis Mawr Nadolig i Flwyddyn 7**, a gafodd ei fwynhau'n fawr gan y disgyblion.









**Iechyd a Lles**

Bu'r tymor yn llawn gweithgareddau Iechyd a Lles amrywiol ar draws yr ysgol. Cynhaliwyd **Wythnos Wrth-fwlio**, gyda disgyblion yn dangos cefnogaeth drwy wisgo sanau od. Cafwyd hefyd gwasanaethau blwyddyn dan arweiniad **Mr Gareth Crowe** a **Mrs Lona Roberts**, a gafodd dderbyniad cadarnhaol. Fel rhan o weithgareddau **Plant Mewn Angen**, cefnogodd disgyblion yr achos drwy wisgo dillad eu hunain, ac fe werthwyd cacennau a baratowyd gan ddisgyblion **Bwyd a Maeth Blwyddyn 10**. Creodd disgyblion **Blwyddyn 9 Galendr Caredigrwydd** gyda 24 syniad o ffyrdd o helpu eraill dros gyfnod yr ŵyl, ynghyd â menter **Adfent Ailgylchu**, a amlinellodd 12 ffordd wahanol o ailgylchu. Cafodd disgyblion **Blwyddyn 7** gyfle i ddysgu arwyddo **Makaton** i gyd-fynd â chân Nadoligaidd, a chafwyd cyflwyniadau gwerthfawr gan **PC Rhiannon Wright**.



**Swyddogion Blwyddyn 11**

Rydym yn falch o gyflwyno **Swyddogion Blwyddyn 11**, sydd wedi'u hethol gan yr athrawon ar sail eu cyfrifoldeb, dibynadwyedd, ymddygiad parchus, presenoldeb da, prydlondeb a'u bod yn fodelau rôl cadarnhaol o fewn yr ysgol. Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r rôl bwysig hon ymhellach eleni, wrth iddynt gefnogi bywyd dyddiol yr ysgol a chyfrannu at awyrgylch cadarnhaol. Llongyfarchiadau i **Justin**, **Ciron**, **Gethin Hughes**, **Gethin Carter**, **Harri Pugh**, **Hari Edwards**, **Non**, **Tesni**, **Purdey**, **Emily**, **Lily**, **Maizie**, **Sasha**, **Kian**, **Jac Rhys**, **Edward** a **Deio**.

**Llwyddiannau Chwaraeon Ysgol Eifionydd**

Rydym yn falch iawn o longyfarch nifer o ddisgyblion Ysgol Eifionydd ar eu llwyddiannau chwaraeon diweddar, gan gynrychioli'r ysgol, y sir a'r rhanbarth ar lefel uchel. Cafodd **Lottie Jenkins**, **Elsa Edwards**, **Siwan Jones** a **Mari Evans** eu dewis i gynrychioli **Tîm Ysgolion Gwynedd** – camp wych a thystiolaeth glir o'u hymrwymiad a'u sgiliau. Yn ogystal, mae **Lottie** hefyd wedi cael ei dewis i gymryd rhan yn rhaglen ranbarthol **FAW**, cyflawniad nodedig arall. Llongyfarchiadau mawr i **Callum Smith**, a gymerodd ran mewn **treialon yng Nghaerdydd** ac sydd wedi cael ei ddewis i gynrychioli **Tîm Pêl-droed Gogledd Cymru Dan 14**. Rydym yn hynod falch ohono ac yn dymuno pob llwyddiant iddo. Rydym hefyd yn falch o **Celt Carr**, sydd wedi cael ei ddewis i gynrychioli **Tîm Gorllewin RGC Dan 16** ac sydd eisoes wedi chwarae sawl gêm dros y tîm. Yn ogystal, llongyfarchiadau i **Lucas Smith** ar gynrychioli **Tîm Pêl-droed Dan 15 Ysgolion Gwynedd** mewn gemau yn erbyn Wrecsam a Chonwy. Hoffwn hefyd estyn llongyfarchiadau mawr i **Scarlett Harvey**, sydd wedi cynrychioli **Tîm Pêl-rwyd Dan 13 Academi Gogledd-orllewin Cymru** yng Nghaerdydd, ac sydd hefyd wedi mynychu **treialon pêl-rwyd yng Nghanolfan Brailsford** yn ddiweddar. Yn ogystal, da iawn i **Grace Morgan**, **Elenid Wynn** a **Scarlett Harvey** am gystadlu mewn **cystadlaethau dawns yn Lerpwl** fis diwethaf. Da iawn i chi oll – rydym yn falch iawn ohonoch yn **Ysgol Eifionydd**.



**Taith Addysgol i'r Eidal!**

Yn ddiweddar, bu disgyblion **Blwyddyn 9** ar daith addysgol gyda'r adran **Dyniaethau, i-Feddwl** i **Fae Naples**, a fu'n brofiad anhygoel a bythgofiadwy. Cafodd y disgyblion gyfle i ymweld â **Pompeii** a **Herculaneum**, cerdded **Llosgfynydd Vesuvius**, ac ymweld ag **Ynys Capri**, gan gyfoethogi eu dealltwriaeth o hanes, daearyddiaeth a diwylliant yr ardal. Roedd y daith yn brofiad dysgu gwerthfawr a ysbrydoledig i bawb a gymerodd ran.

**Angori *i*-Ragori ac *i*-Lywio, i Lwyddo**

**Angori *i*-Ragori** yw dull ysgol-gyfan sy'n cefnogi disgyblion i anelu at ragoriaeth drwy ganolbwyntio ar brosesau dysgu, sgiliau meddwl lefel uwch a hunan-lywodraethu. Caiff y dull ei wreiddio yn systemau tracio, adolygu ac adrodd, gan alluogi disgyblion i ddeall eu cynnydd a chymryd perchnogaeth o'u taith ddysgu.

*i*-**Lywio, i Lwyddo** yw rhaglen gyfoethogi hyblyg, ddewisol, sydd ar gael i bob disgybl. Mae'n grymuso disgyblion i gynllunio a rheoli eu dysgu eu hunain, dewis dulliau sy'n gweithio iddyn nhw, a dilyn cyfleoedd sy'n ehangu'r cwricwlwm ac yn dyfnhau dealltwriaeth. Edrychwn ymlaen at wreiddio'r prosesau hyn ymhellach ar draws yr ysgol, gan barhau i ddatblygu diwylliant o uchelgais, perchnogaeth a dysgu annibynnol.

ANGORI I-RAGORI

I-LYWIO, I LWYDDO







**Clwb Cymru Ysgol Eifionydd**

Mae **Clwb Cymru Ysgol Eifionydd** wedi'i sefydlu eleni gyda'r nod o hybu Cymreictod a chreu gofod i ddisgyblion gyfathrebu a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar **Ddydd Mawrth 14 Hydref**, gan groesawu **Siân Eurig**, Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd, i ddathlu **Dydd Shwmae Su'mae** a thrafod manteision dwyieithrwydd ac arferion ieithyddol. Fel rhan o'r dathliadau, cymerodd disgyblion **Blwyddyn 7 ran mewn Helfa Gyfarchion** o amgylch yr ysgol, gan ddysgu gwahanol ffyrdd o gyfarch yn Gymraeg. Yn ogystal, bu disgyblion **Blwyddyn 9 Ail Iaith Cymraeg** yn rhannu posteri "Cefnogwch yr Iaith" mewn siopau lleol, gan annog y gymuned i ddechrau sgwrs yn Gymraeg. Menter gadarnhaol ac ysbrydoledig sy'n cryfhau defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.




**Y Cod Ymddygiad: Y Ffordd Ymlaen**

Mae **Cod Ymddygiad** newydd wedi'i gyflwyno yn Ysgol Eifionydd yn dilyn ymgynghoriad gyda staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion, gan sicrhau bod llais pawb wedi'i gynnwys yn y broses. Nod y cod yw **sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol, adlewyrchu ethos gadarnhaol**, a **rhoi dealltwriaeth glir o'r disgwyliadau i bob disgybl**.

Mae'r cod yn seiliedig ar dri phrif egwyddor, *Y Ffordd Ymlaen:* **Bydd Barod**, **Bydd Barchus**, a **Bydd Ddiogel**. Yn ogystal, cyflwynwyd camau cyfeirio newydd yn y dosbarth, ynghyd â system gyfeirio a monitro wedi'i diweddaru i gefnogi ymddygiad cadarnhaol. Cafodd y gwaith ei gefnogi gan hyfforddiant arbenigol gan **Steve Baker**, sy'n parhau i weithio gyda'r ysgol i gryfhau a datblygu'r ddarpariaeth ymhellach.









**Adolygiad o'n Polisi Ymddygiad**

Hoffem ddiolch yn ddiffuant i'r holl rieni a gofalwyr a gymerodd yr amser i lenwi'r holiadur barn diweddar. Roedd eich mewnbwn yn werthfawr iawn ac wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu **Cod Ymddygiad** newydd yr ysgol – *Y Ffordd Ymlaen*. Er bod y cod ymddygiad bellach wedi'i gyflwyno, rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd pellach o wella ac o fireinio ein systemau a'n prosesau. Fel rhan o'r broses barhaus hon, hoffem roi cyfle pellach i rieni a gofalwyr fynegi eu barn a rhannu awgrymiadau i'n helpu i ddatblygu ymhellach. Byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallech yn llenwi'r holiadur hwn drwy ddefnyddio'r cod QR hwn. Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.









**Cynghorau Ysgol**

Rydym yn falch o rannu bod cynghorau'r ysgol bellach wedi'u sefydlu:
**Cyngor Ysgol, Iechyd a Lles, Ysgol Werdd, Cymreictod a Chreadigol.**
Mae'r cynghorau wedi bod yn brysur iawn yn ystod y tymor hwn, gan ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau a mentrau cadarnhaol. Edrychwn ymlaen at weld hyd yn oed mwy o waith a datblygiadau cyffrous ar y gweill yn y flwyddyn newydd.

Wrth i ni ddod at ddiwedd y tymor, hoffem ffarwelio â **Miss Catrin Baum** a **Mrs Myfanwy French**, a diolch yn fawr iddynt ill dwy am eu gwaith ymroddedig a'u cyfraniad gwerthfawr i fywyd Ysgol Eifionydd. Dymunwn bob lwc iddynt ar gyfer y dyfodol.

Hoffem hefyd estyn croeso cynnes i **Mrs Beth Bentley**, sydd newydd ymuno â'r ysgol, a nodi y bydd **Miss Hanna Jones** yn ymuno â'r swyddfa yn fuan.

**Nadolig Llawen i Bawb!**

Diolch i bawb am dymor llawn gwaith caled ac ymroddiad yn Ysgol Eifionydd. Mwynhewch wyliau'r Nadolig – seibiant haeddiannol i gael seibiant i ymlacio yn iawn. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y flwyddyn newydd.

## Dyddiadau Pwysig

***Ailagor i Ddisgyblion: Dydd Mawrth, 6ed o Ionawr, 8:55yb***